

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 12. Newid hinsawdd

### 12.8 Newid hinsawdd a bywoliaethau



Bydd lleihau'r risg o newid difrifol yn yr hinsawdd yn newid natur economi'r DU. Bydd bron pob sector o'r economi'n cael ei effeithio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd wrth newid i economi carbon isel, gyda goblygiadau i natur, lleoliad a sicrwydd swyddi. Mae llawer o unigolion a chymunedau yn y DU yn dal i dalu'r pris am y newid sydyn o gynhyrchu diwydiannol yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac ni allwn ganiatáu i'r newid i economi carbon isel achosi effeithiau tebyg.

Rhaid i ailstrwythuro ddigwydd mewn ffordd sy'n sensitif i holl weithwyr y wlad ond i weithwyr ar incwm isel yn fwyaf arbennig, sy'n fwy sensitif i effeithiau newid sydyn i brisiau bwyd neu danwydd. Rhaid i effeithiau polisiâu newid yn yr hinsawdd fod yn gyfartal a rhaid sicrhau nad yw baich newid yn yr hinsawdd yn disgyn yn anghymesur o drwm ar ysgwyddau gweithwyr ar incwm isel, a'u teuluoedd.

Mae'r mudiad undebau llafur ac eraill wedi dadlau dros newid teg i economi carbon isel. Mae'r cysyniad o newid teg yn cydnabod bod cefnogaeth i bolisiâu amgylcheddol yn ddibynnol ar ddisbarthu costau a buddiannau'r polisiâu hynny'n deg ar draws yr economi, ac ar greu cyfleoedd i'r sawl sy'n cael eu heffeithio gael llais wrth lunio dyfodol eu lles eu hunain a'u teuluoedd.

Mae newid teg yn cydnabod bod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael effaith anghymesur ar y tlotaf mewn cymdeithas - y rhai sydd wedi gwneud lleiaf i gyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Mae'n creu fframwaith i roi sylw i'r anghyfiawnder hwn, ond hefyd i sicrhau tegwch i bob gweithiwr sy'n gorfod wynebu ansefydlogrwydd yn y farchnad lafur, ac i fanteisio ar yr holl gyfleoedd fydd yn codi yn sgil creu economi fwy gwyrdd.

Mae cyhoeddiad y TUC, *A Green and Fair Future: For a Just Transition to a Low Carbon Economy*, yn dadlau bod yn rhaid i ni ddechrau cynllunio'n awr er mwyn sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol yn cael ei ymgorffori ym mholisi newid yn yr hinsawdd a'r newidiadau anorfod a fydd yn dod yn ei sgil.

Gallwch ddarllen y cyhoeddiad yn

[www.tuc.org.uk/publications/viewPub.cfm?frmPubID=549](http://www.tuc.org.uk/publications/viewPub.cfm?frmPubID=549)

Rhaid cael addysg a hyfforddiant i hybu cyflogaeth gynaliadwy, a pheccynnau newid hyblyg ar gyfer gweithwyr a all gollu eu swyddi neu eu gweld yn newid.

Mae tystiolaeth sylweddol sy'n dangos bod newid amgylcheddol yn fwy effeithiol pan mae gweithwyr yn cymryd rhan yn y broses. Mae prosiect Gweithleoedd Gwyrdd y TUC yn dangos y llwyddiant a all ddod pan mae cyflogwyr a chyflogeion yn gweithio ochr yn ochr i bennu amcanion amgylcheddol. Mae cymorth i gymunedau hefyd yn hanfodol, yn enwedig o gofio crynhoad daearyddol llawer o ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni. Bydd gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyflogwyr, undebau llafur a'r trydydd sector i gyd ran i'w chwarae wrth gynllunio ymateb cydlynus. Dim ond drwy fabwysiadu ymagwedd o'r fath y gallwn sicrhau newid gwirioneddol gyflawn i economi carbon isel.

## **Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru**

Mae Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru yn darparu mecanwaith cyflenwi pwysig ar gyfer ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac mae'n disgrifio'n fwy manwl sut y gallwn gyflawni ein gweledigaeth o:

Economi wydn a chynaliadwy i Gymru sy'n gallu datblygu tra'i bod yn sefydlogi, ac yna'n lleihau, ei defnydd o adnoddau naturiol a lleihau'i chyfraniad i'r newid yn yr hinsawdd.

## **Newid i Economi Carbon Isel**

Am ragor o wybodaeth am yr hyn sydd angen ei newid yn ein heconomi i greu swyddi gwyrdd a newid cyfiawn, gweler y cyhoeddiadau canlynol:

### **Zero Carbon Britain 2030**

[http://neweconomics.org/sites/neweconomics.org/files/Zero\\_Carbon\\_Britain\\_2030.pdf](http://neweconomics.org/sites/neweconomics.org/files/Zero_Carbon_Britain_2030.pdf)

### **Rhanbarthau Carbon Isel y Comisiwn Datblygu Cymunedol**

[www.sd-commission.org.uk/data/files/publications/SDC\\_LowCarbonRegions\\_report\\_web.pdf](http://www.sd-commission.org.uk/data/files/publications/SDC_LowCarbonRegions_report_web.pdf)


### **The Great Transition: A Tale of how it turned out right**

<http://neweconomics.org/publications/great-transition>

## **Ymwadiad**

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Ni ddylid ei defnyddio ar draul cyngor proffesiynol ac ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am golledion a all ddeillio o ganlyniad i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu'n peidio gweithredu arni.

### **Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â**

<p><b>Cyngor Trydydd Sector Caerdydd</b> <i>Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH</i> <b>Elusen Gofrestredig: 1068623</b></p> <p><b>Ffôn:</b> 029 2048 5722                      enquiries@c3sc.org.uk <b>Ffacs:</b> 029 2046 4196                      www.c3sc.org.uk</p>	 <p><b>WcVA</b> <b>CgGC</b></p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Wedi ei ddiweddaru:</b> 16/03/2012</p>	<p>Ffôn: 0300 111 0124 www.wcva.cymru</p>